# Aelodaeth QAA 2025-26
## Cymru

# Rhagair gan Vicki Stott

## Prif Weithredwr QAA

Mae QAA yn chwarae rôl hanfodol mewn addysg drydyddol ym mhob rhan o'r DU a thramor. Mae prifysgolion a darparwyr addysg eraill, a chyrff rheoleiddio, yn ymddiried ynom ni i gynnal safonau a gwella ansawdd. Rydym yn cydweithio â llywodraethau, asiantaethau a sefydliadau ledled y byd er budd y sector yn y DU a'i fyfyrwyr.

Yn rhan o'n gwaith, rydym yn adolygu ansawdd y ddarpariaeth, yn tywys y gwaith o lunio safonau'r sector, yn cynhyrchu deunyddiau cyngor ac arweiniad, ac yn helpu darparwyr i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu. Yn rhyngwladol, cawn ein hadnabod fel un o asiantaethau sicrhau ansawdd blaenllaw'r byd, ac mae'r galw cynyddol am ein hachrediad rhyngwladol yn dystiolaeth o werth ein brand ar y llwyfan byd-eang.

Rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth fawr o randdeiliaid, gan gynnwys prifysgolion, colegau, cyrff proffesiynol, cyrff rheoleiddio a myfyrwyr. Ac rydym yn mwynhau ein gwaith! Mae cydweithredu a phartneriaeth wrth wraidd ein hunaniaeth ac yn sicrhau y gallwn ddarparu ein gwasanaethau'n effeithiol fel asiantaeth.

Yn y tirlun addysg uwch ac addysg drydyddol presennol sy'n datblygu'n gyflym, mae darparwyr yn wynebu heriau a chyfleoedd digynsail. Mae Aelodaeth QAA yn cynnig yr adnoddau a'r gefnogaeth hanfodol sydd eu hangen ar eich sefydliad i ffynnu yn yr amgylchedd deinamig hwn.

Gyda bron i 30 o flynyddoedd o brofiad, mae QAA wedi ymwreiddioarbenigedd a gwybodaeth eang yn y tirlun ansawdd a safonau. Mae ein rhaglen wella ar ei newydd wedd wedi ei llunio i addasu i'r amgylchedd allanol newidiol ac i gefnogi'r sector yn y ffordd orau. Trwy ymaelodi â QAA, mae cyfoeth o adnoddau, gweithgareddau a chymorth ar gael i chi, a fydd yn grymuso eich sefydliad i ragori yn yr arenâu addysg uwch yn y DU a thramor.

**Ymaelodwch â QAA er mwyn parhau i ddatgloi potensial llawn eich sefydliad. Gyda'n gilydd, gallwn siapio dyfodol y sector addysg uwch a'r sector addysg drydyddol. Peidiwch â cholli'r cyfle hwn i fod yn rhan o gymuned sy'n ymroddedig i ragoriaeth ac arloesi.**



# Aelodaeth QAA

## Manteision bod yn Aelod o QAA

### Codi eich llais yn uwch

Mae gennym gydberthnasau agos â sefydliadau, asiantaethau sicrhau ansawdd a chyrff partner yn y DU a ledled y byd, a gyda chyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio, gan rannu arbenigedd aelodau QAA drwy'r byd i gyd.

### Datblygu eich sgiliau a'ch rhwydweithiau

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau i'ch cefnogi i wella gan hefyd barchu eich ymreolaeth a'r amrywiaeth yn y sector. Mae Aelodaeth QAA wedi ei lunio i fod yn gydweithredol ac felly mae'n ffynnu trwy ddatblygu cydberthnasau effeithiol, creu cyfleoedd ystyrlon i rwydweithio ac ymgysylltu â'r sector ehangach, a helpu i ddatblygu sgiliau a phrofiad ar draws eich sefydliad cyfan.

### Ehangu eich gwybodaeth a gwella eich arferion

Gyda bron i 30 o flynyddoedd o arbenigedd fel corff annibynnol a diduedd sy'n arwain y byd ym maes sicrhau ansawdd, mae QAA wedi helpu i sefydlu systemau sicrhau a gwella ansawdd ledled y byd. Gallwn eich cefnogi chi'n hyderus i wneud arferion a phrosesau'n fwy effeithlon ac effeithiol, sicrhau'r effaith orau bosib o ddefnyddio ein pecynnau cymorth, ein canllawiau a'n deunyddiau briffio am bolisi a strategaeth.

### Ateb eich blaenoriaethau chi

Llunnir themâu trosfwaol Aelodaeth QAA i fynd i'r afael yn uniongyrchol â heriau arwyddocaol i'r sector, gan sicrhau eich bod yn aros ar flaen y gad yn y tirlun addysg uwch ac addysg drydyddol sy'n datblygu'n barhaus. Rydym yn ymgysylltu â chi a'ch cydweithwyr er mwyn deall eich sefyllfa unigryw ac i'ch cefnogi i sicrhau newid ystyrlon.

# Codi eich llais yn uwch

## Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi a chryfhau dylanwad eich sefydliad

### > Hyrwyddo ansawdd a safonau

Rydym yn cymryd rhan weithredol yng ngwaith llywodraethau, asiantaethau'r sector a chyrff dylanwadol eraill i siapio polisïau ac arferion. Ein nod yw sicrhau bod materion ansawdd yn elfen flaenllaw mewn mentrau newydd a rhai sy'n datblygu. Trwy ymuno â ni, rydych yn dod yn rhan o lais ar y cyd sy'n dylanwadu ar benderfyniadau allweddol ac yn gwthio'r agenda ansawdd yn ei blaen.

### > Arwain meddylfryd a chadw llygad ar y gorwel

Arhoswch ar flaen y gad gyda'n gwybodaeth amserol ynglŷn â thueddiadau sy'n dod i'r amlwg a datblygiadau ym maes polisi sy'n ymwneud ag ansawdd a safonau. Mae ein dadansoddiad arbenigol a'n hagwedd flaengar yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i chi i lywio drwy'r tirlun addysg uwch sy'n newid yn barhaus. Rydym yn cynnig mynediad unigryw i adroddiadau, gweminarau a digwyddiadau sy'n sicrhau eich bod yn wybodus ac yn barod ar gyfer y dyfodol.



# Codi eich llais yn uwch

## Cydnabyddiaeth fyd-eang

Mae ein gweithgareddau rhyngwladol yn agor drysau i gyfleoedd, cydweithrediadau a phartneriaethau newydd sy'n gwella proffil eich sefydliad a'ch dylanwad drwy'r byd i gyd. Rydym yn manteisio ar enw da rhagorol QAA ac addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd i ehangu i feysydd newydd, er budd addysg drydyddol y DU.

## Eich llais a'ch arbenigedd chi

Cymryd rhan mewn grwpiau cynghori a chyfrannu at ddatblygu pwyntiau cyfeirio a meincnodau'r sector. Sicrhau bod y safonau hyn yn parhau'n ystyrlon ac yn hygyrch i chi a'ch cydweithwyr. Mae eich cyfraniad yn helpu i siapio dyfodol y sector addysg uwch, gan sicrhau bod y sector yn hysbysu ein gwaith a bod yr hyn a wnawn yn ateb anghenion y sefydliadau a'u myfyrwyr fel ei gilydd. Rydym yn darparu llwyfan lle gallwch godi eich llais a lle bydd eich arbenigedd yn cael ei gydnabod.

Mae fy mhrofiad o weithio gyda QAA wedi bod yn eithriadol bositif. Mae fy aelodaeth wedi golygu bod amrywiaeth o adnoddau o safon uchel ar gael i mi, a gallaf fynychu digwyddiadau am ddim. Mae hyn wedi caniatáu i mi gysylltu â rhwydwaith o addysgwyr blaengar ym maes addysg uwch. Mae QAA yn deall y tirlun addysg uwch yn y DU yn glir, ac mae'n meithrin amgylchedd cydweithredol a chynhwysol sy'n croesawu amrywiaeth o safbwyntiau.

**Dr Katherine Chapman,**
**Cyfarwyddwr Rhaglen,**
**Prifysgol Abertawe**

# Datblygu eich sgiliau a'ch rhwydweithiau

## Meithrin cysylltiadau a datblygu eich gallu trwy amrywiaeth o fanteision neilltuedig sydd wedi eu llunio i gefnogi eich twf proffesiynol

### > Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol

Meithrin eich gallu ac ehangu eich meysydd o arbenigedd gyda'n rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr. Mae ein sesiynau hyfforddi wedi eu teilwra i ateb anghenion penodol ein haelodau. P'un a ydych chi'n gobeithio gwella'r sgiliau sydd gennych neu ddatblygu sgiliau newydd, nod ein rhaglenni yw eich helpu i gyflawni eich amcanion proffesiynol chi.

### > Digwyddiadau sy'n ysbrydoli

Cymryd rhan mewn gweithdai, cynadleddau a gweminarau sy'n ymwneud â'r themâu a'r pynciau sydd fwyaf perthnasol i rôl eich swydd ac i'ch sefydliad. Mae ein digwyddiadau wedi eu llunio i roi'r wybodaeth a'r sgiliau yr ydych eu hangen er mwyn llwyddo. O weithdai rhyngweithiol sy'n cynnig technegau a sgiliau ymarferol i gynadleddau sy'n ysgogi'r meddwl ac sy'n archwilio'r ymchwil a'r arloesi diweddaraf, mae ein digwyddiadau'n darparu profiadau dysgu gwerthfawr. Mae ein gweminarau a'n digwyddiadau ar-lein yn cynnig yr hyblygrwydd i chi allu dysgu o unrhyw le, gan olygu ei bod hi'n haws i chi dderbyn gwybodaeth a chael eich ysbrydoli lle bynnag yr ydych chi.



# Datblygu eich sgiliau a'ch rhwydweithiau

## > Cyfleoedd rhwydweithio

Cysylltu â chymheiriaid, cyfnewid syniadau, rhannu gwybodaeth a dysgu o brofiadau pobl eraill. Trwy Aelodaeth QAA, cewch gyfle i drafod materion pwysig a chydweithio â gweithwyr proffesiynol ym maes addysg uwch sydd o'r un feddwl â chi. Rydym yn cynnal digwyddiadau rhwydweithio, yn rhithwir ac wyneb yn wyneb, sy'n rhoi cyfle i chi ddatblygu cydberthnasau ystyrlon â chydweithwyr o bob rhan o'r sector. Gall y cysylltiadau hyn arwain at gydweithrediadau, partneriaethau a chyfleoedd newydd i dyfu'n broffesiynol.

## > Prosiectau Gwella Cydweithredol

Fel aelod o QAA, bydd cyfle i chi wneud cais am gymorth ariannol, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ar gyfer y blaenoriaethau a rannwch. Gan fynd i'r afael â heriau pwysig a gyrru arloesiad, nod ein rhaglen o Brosiectau Gwella Cydweithredol yw gwella profiad dysgu'r myfyrwyr drwy wneud gwaith ymchwil a datblygu adnoddau. Trwy gydweithio â sefydliadau eraill, gallwch rannu gwybodaeth, cronni adnoddau a chael dylanwad ystyrlon yn eich maes chi.

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) wedi bod yn gefnogaeth gadarn a di-sigl dros y blynyddoedd. Mae eu cyngor a'u harweiniad amhrisiadwy ynghyd â'u rhwydweithiau eang nid yn unig wedi hwyluso cyflawniadau sylweddol yn ein sefydliad, maen nhw hefyd wedi gyrru fy amcanion proffesiynol fy hun yn eu blaenau. Gyda'u hymroddiad a'u harbenigedd parhaus does gen i ddim amheuaeth y byddent yn parhau'n gyfrwng pwysig o ran siapio ein llwyddiant yn y dyfodol.

**Rosie Scott-Ward, Dirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol Hartpury**

# Ehangu eich gwybodaeth a gwella eich arferion

## Mae bod yn Aelod o QAA yn gwella effeithlonrwydd drwy fanteisio ar yr arbenigedd a'r arferion gorau ymhob rhan o'r sector, gan ganiatáu i aelodau elwa heb ddechrau o'r dechrau

### > Llyfrgell adnoddau gynhwysfawr

Sicrhau mynediad i lyfrgell adnoddau gynhwysfawr i'n haelodau, sy'n cynnwys papurau ymchwil, deunyddiau briffio am bolisi, ac astudiaethau achos. Clywed y diweddaraf am y datblygiadau mwyaf diweddar a'r arferion gorau ym meysydd sicrhau ansawdd ac addysg uwch.

### > Canllawiau

Canfod atebion a dilyn arferion effeithiol gyda'n canllawiau manwl. Llunnir yr adnoddau hyn i'ch helpu i fynd i'r afael â heriau cymhleth mewn addysg uwch ac addysg drydyddol a gweithredu strategaethau llwyddiannus. P'un a ydych ch'n ymdrin â newidiadau ym maes polisi, prosesau achredu neu fentrau gwella ansawdd, mae ein canllawiau'n darparu cyngor clir, rhwydd ei weithredu i gefnogi eich ymdrechion.



# Ehangu eich gwybodaeth a gwella eich arferion

## > Pecynnau cymorth ymarferol

Gwnewch eich tasgau'n fwy effeithlon gyda'n pecynnau cymorth ymarferol ac addasadwy. Mae'r deunyddiau hyn wedi eu teilwra i gefnogi eich gweithredoedd dyddiol a gwella eich gallu i fod yn gynhyrchiol.

## > Deunyddiau briffio am bolisi a strategaeth

Derbyn crynodebau cynhwysfawr o ddatblygiadau allweddol ym maes polisi i gefnogi eich gwaith cynllunio strategol. Mae ein deunyddiau briffio'n rhoi'r wybodaeth yr ydych ei hangen i chi i wneud penderfyniadau deallus ac aros ar flaen y gad. Rydym yn ymwneud ag amrywiaeth eang o bynciau, o newidiadau i reoliadau i dueddiadau cynyddol amlwg, gan sicrhau bod gennych y wybodaeth yr ydych ei hangen i lywio drwy'r tirlun addysg uwch cymhleth.

Mae ethos cydweithredol QAA yn eu gwneud yn gydweithwyr gwych i brifysgolion wrth i'r prifysgolionhynny weithio i wella pob agwedd o'r dysgu, yr addysgu a'r asesu. Mae gweithio gyda QAA ar ein dull tiwtora academaidd personol wedi bod yn wych. Mae eu cydweithwyr wedi helpu i bennu a hwyluso dulliau o gydweithio â sefydliadau eraill sy'n gwneud gwaith cyffelyb. Yn ei dro, mae hyn wedi arwain at ddatblygu rhwydwaith cenedlaethol newydd o arweinwyr strategol ym maes tiwtora personol.

**Dr Steve Briggs,**
**Cyfarwyddwr Rhagoriaeth Addysgu a Dysgu,**
**Prifysgol Swydd Bedford**

# Ateb eich blaenoriaethau chi

## Bydd ein themâu ar gyfer 2025-26 wedi eu gwau drwy'r holl weithgareddau i aelodau, yn cynnwys y rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau a'r gyfres o adnoddau

### > Cefnogi dysgu ac addysgu o safon uchel

**Helpu darparwyr wrth iddyn nhw gael eu gwerthuso i weld yw eu hansawdd uwchlaw'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol**

Mae Aelodaeth o QAA yn rhoi'r arweiniad a'r cyfryngau angenrheidiol i'ch sefydliad i ddarparu dysgu ac addysgu o safon uchel. Mae ein hadnoddau'n cefnogi cynllunio, darparu, gwella a gwerthuso'r dysgu a'r addysgu ar draws yr holl fathau gwahanol o ddarpariaeth. Mae aelodaeth hefyd yn rhoi'r cyfryngau angenrheidiol i chi i ddangos ansawdd y dysgu a'r addysgu yn eich sefydliad, a'ch ymrwymiad i wella profiad dysgu eich myfyrwyr.

### > Arloesi dulliau darparu

**Cofleidio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, uniondeb academaidd a rhagor**

Wrth i'r sector addysg uwch a'r sector addysg drydyddol barhau i arloesi a newid, mae Aelodaeth QAA yn eich cadw chi ar reng flaen y datblygiadau hyn. Rydym yn darparu cefnogaeth a gwybodaeth i chi am y tueddiadau diweddaraf, yn cynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a sicrhau uniondeb academaidd. Mae ein hadnoddau'n eich helpu i lywio'r arloesi hwn, gan adael i'ch sefydliad barhau'n gystadleuol a chydymffurfio bob amser â safonau sy'n datblygu.

### > Cynnal ansawdd yn ystod cyfnodau heriol

**Gwneud eich swyddogaeth sicrhau ansawdd yn fwy effeithlon**

Mewn cyfnodau o ansicrwydd, gall fod yn heriol cynnal ansawdd o safon uchel. Mae Aelodaeth QAA yn cynnig atebion ymarferol i'ch helpu i gyflawni eich swyddogaeth sicrhau ansawdd yn fwy effeithlon. Mae ein hadnoddau a'n cymorth yn eich galluogi chi i symleiddio prosesau, gostwng llwyth gwaith gweinyddol, a chanolbwyntio ar ddarparu addysg ardderchog i'ch myfyrwyr.



# Dyrchafu eich aelodaeth

Yn rhan o'r aelodaeth yng Nghymru, mae'r pecyn gwella **International Insights** yn darparu adnoddau a digwyddiadau sydd wedi eu teilwra i bartneriaethau rhyngwladol a chefnogaeth i fyfyrwyr. Mae'r gymuned 'International Insights' yn cynnwys mwy na 120 o sefydliadau sy'n aelodau o QAA, sy'n cysylltu â'i gilydd, siapio blaenoriaethau a manteisio ar arbenigedd a rhwydwaith byd-eang QAA.

## Mae International Insights yn cefnogi aelodau QAA yn eu gwaith rhyngwladol trwy weithgareddau ac adnoddau i staff sy'n cymryd rhan mewn:

- datblygu, rheoli a monitro partneriaethau rhyngwladol a threfniadau addysg drawswladol
- darparu rhaglenni rhyngwladol
- cefnogi myfyrwyr rhyngwladol
- goruchwylio prosesau o sicrhau a gwella ansawdd gweithgareddau rhyngwladol
- recriwtio myfyrwyr rhyngwladol.

Mae'r rhaglen yn darparu gwerth sylweddol drwy:

- **wella partneriaethau rhyngwladol** – cynnig arweiniad ar reoli a datblygu cydweithrediadau rhyngwladol, gan sicrhau partneriaethau strategol a chynaliadwy
- **gefnogi myfyrwyr rhyngwladol yn y DU** – canolbwyntio ar wella agweddau penodol o daith astudio'r myfyriwr rhyngwladol, megis y cyfnodau cyn cyrraedd, cynefino, pontio ac integreiddio, sgiliau a chymorth academaidd, a gyrfaoedd a chyflogadwyedd
- **arddangos yr arferion gorau** – rhannu esiamplau o arferion effeithiol mewn meysydd megis strategaeth, trefniadau partneriaeth, gwaith ymchwil a chytundebau cyfnewid
- **darparu dealltwriaeth fanwl** – darparu adroddiadau manwl a gweminarau am dair gwlad y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar y tirlun addysg uwch, materion sicrhau ansawdd ac addysg drawswladol
- **hwyluso rhwydweithiau proffesiynol** – cynnig cyfleoedd i staff rannu eu sgiliau a'u gwybodaeth, a thrafod y datblygiadau diweddaraf mewn partneriaethau rhyngwladol, polisïau ac arferion.

## I gael rhagor o wybodaeth am International Insights yn 2025-26, ewch i wefan QAA.

# Y camau nesaf

Trwy adnewyddu eich aelodaeth o QAA ar gyfer 2025-26, byddwch yn sicrhau eich bod yn parhau i allu manteisio ar ein cefnogaeth a'n hadnoddau heb eu hail, gan helpu eich sefydliad i ragori ac arloesi yn yr amgylchedd addysg uwch ac addysg drydyddol ddeinamig.

Mae'r camau nesaf yn syml. Pan fydd y cyfle i adnewyddu'n cychwyn ym mis Mai, byddwch yn derbyn dolen at eich ffurflen adnewyddu. Y cwbl y bydd angen i chi ei wneud yw clicio ar y ddolen i gyflwyno eich ffurflen gyflawn. Fe wnawn ni'r gweddill!

I ganfod sut i fanteisio i'r eithaf ar eich aelodaeth o QAA, cysylltwch â'n tîm Ymgysylltu â'r Sector.

Mae'n anrhydedd gen i arwain y tîm Darpariaeth i Aelodau sy'n gyfrifol am sicrhau bod adnoddau, hyfforddiant, prosiectau gwella cydweithredol, digwyddiadau i aelodau a rhwydweithiau'n cael eu llunio nid yn unig i gefnogi aelodau QAA ond hefyd i gael dylanwad mesuradwy a throsglwyddadwy ar arferion.

Edrychaf ymlaen at y flwyddyn o aelodaeth sy'n dod, pan fyddwn yn partneru â darparwyr i archwilio ac ysbrydoli dysgu ac addysgu rhagorol. Mae potensial gan ansawdd y gwaith hwn nid yn unig i wella'r amgylchedd dysgu ond hefyd i weddnewid bywydau'r rheiny sy'n cymryd rhan, yn ymarferwyr a myfyrwyr. Mae'n anochel y bydd heriau o'n blaenau yn yr amgylchedd addysg uwch ac addysg drydyddol, yn y DU a thrwy'r byd i gyd, ond rwy'n hyderus y bydd y flwyddyn nesaf o Aelodaeth QAA yn gyfle i weld y twf a'r brwdfrydedd ynghylch gwelliant ansawdd y gobeithiwn ei sicrhau.

Trwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i ffynnu ac, wrth wneud hynny, gadw'r safbwyntiau am safonau academaidd ac ansawdd yr ydym mor falch ohonynt fel sector.

**Steph Tindall, Pennaeth Darpariaeth i Aelodau yn y DU a Thramor**

